# CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Llansantffraed a gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos Fawrth, 3ydd Mawrth 2026 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Andrew Phillips (Cadeirydd) y Cynghorwyr Keith Henson, Claire Humphries, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Gwenno Piette ac Aled Roberts.
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**591 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Kathleen Jones a Martine Robson am fethu a bod yn y cyfarfod.

**592 Datgelu Buddiant**
Fe ddatgelodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater cynllunio y cyfeirir ato yng nghodnod 597 isod gan adael yr ystafell pan gafodd ei drafod.

**593 Cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2026**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2026.

**594 Materion yn Codi o'r Cofnodion**
a) Ni dderbyniwyd gwybodaeth pellach gan yr Asiant Cefnffyrdd ynghylch y cynnig i osod diffibrilydd ar gysgodfa bws Cylch Peris.
**b)** Roedd angen cysylltu gyda Barcud ar gyfer cael caniatad i osod diffibrilydd ar wal Hafan yr Efail.
c) Byddai angen cysylltu gyda swyddog lleol yr Asiant Cefnffyrdd i drafod y posibilrwydd o droi rownd y gysgodfa ar ochr Penlon.
d) Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyngor Sir y byddai'r bin halen yn

**Minutes of a Meeting of Llansantffraed Community Council held at 7:30 pm on Tuesday, 3rd March 2026 at the Reading Room, Llanon**

**Present:** Councillor Andrew Phillips (Chairman) Councillors Keith Henson, Claire Humphries, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Gwenno Piette and Aled Roberts.
Mr Denfer Morgan (Clerk)

**591 Apologies**
Councillors Kathleen Jones and Martine Robson apologised for their inability to attend the meeting.

**592 Disclosure of Interest**
Councillor Keith Henson disclosed a personal and prejudicial interest in the planning matter referred to in minute 597 below and left the room during the consideration thereof.

**593 Minutes of the Meeting of the Council held on 3rd February 2026**
It was **RESOLVED** to confirm the Minutes of the Meeting of the Council held on 3rd February 2026.

**594 Matters Arising from the Minutes**
a) No further information had been received from the Trunk Road Authority concerning the proposal to place a defibrillator on the Cylch Peris bus shelter.
b) There was a need to contact Barcud in writing in order to get permission to place a defibrillator on the Hafan yr Efail wall.
c) The local Trunk Road Agency officer would need to be contacted to discuss the possibility of reversing the bus shelter on the Penlon side.
d) Information had been received from the County Council that a salt

cael ei osod yng Nghylch Peris cyn gaeaf nesaf.

e) Roedd y Clerc yn pwyso am ateb i gais y Cyngor i docio coed yng Nghylch Peris.

**595 Archwiliad Eiddo**

Fe adroddodd y Cynghorydd Gwenno Piette ar ei harchwiliad o eiddo'r Cyngor a nodwyd nad oedd angen sylw penodol ar unrhyw beth ar hyn o bryd.

**596 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r anfonebau canlynol:

AC Electrical & CCTV (TCC y Waun) - £1,128
Neuadd Bentref Llanon (Digwyddiad y Fan) - £33
L&G Forestry Ltd (Coeden Nadolig) - £228
*Cyflog y Clerc (Ion-Chwef-Mawrth)*
Denfer Morgan - £809.12
CThEF (TWE) - £202.28
Costau gweinyddol y Clerc - £291.20

**597 Materion Cynllunio**

Nodwyd y sefyllfa bresennol:

a) A230865 Whitehall Garage, Stryd Fawr, Llanon. *Proposed showroom and MOT/Workshop building to replace existing workshop* - roedd mesurau gorfodaeth yn mynd yn eu blaen a hysbysiad perthnasol yn cael ei gyhoeddi ar gyfer arddangos ar yr eiddo ac ar wefan y Cyngor Sir.

b) A250905 - Central Hotel, Llanon. *Change of use of ground floor pub/restaurant to 1 no. 2 bed flat and 1 no. 1 bed flat (retrospective)* - cafodd y cais cynllunio ei wrthod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

**598 Toiledau'r Waun**

Rhoddwyd gwybod fod tri camera cylch cyfyng wedi cael eu gosod ar eiddo'r Cyngor fel a gymeradwy-wyd.

bin would be provided at Cylch Peris before next winter.

e) The Clerk was pursuing a response to the Council's request for the trees at Cylch Peris to be lopped.

**595 Property Inspection**

Councillor Gwenno Piette reported on her inspection of Council property and it was noted that nothing required particular attention at present.

**596 Finance Matters**

It was **RESOLVED** to pay the following invoices:

AC Electrical & CCTV (Waun CCTV) - £1,128
Llanon Village Hall (y Fan event) - £33
L&G Forestry Ltd (Christmas Tree) - £228
*Clerk's Salary (Jan-Feb-March)*
Denfer Morgan - £809.12
HMRC (PAYE) - £202.28
Clerk's administration costs - £291.20

**597 Planning Matters**

The following situation was noted:

**a)** A230865 Whitehall Garage, Stryd Fawr, Llanon. *Proposed showroom and MOT/Workshop building to replace existing workshop* – enforcemet action had commenced and the relevant notice was being placed on the property and on the County Council website.

**b)** A250905 - Central Hotel, Llanon. Change of use of ground floor pub/restaurant to 1 no. 2 bed flat and 1 no. 1 bed flat (retrospective) – the planning application had been refused by the Local Planning Authority.

**598 Waun Toilets**

It was reported that three CCTV cameras had been installed on the recommended Council properties.

**599 Cysgodfa'r Llain**
**PENDERFYNWYD** gosod cyfarpar teledu cylch cyfyng pwrpasol ar y gysgodfa er mwyn ei ddiogelu.

**599 Slang Shelter**
It was **RESOLVED** to place appropriate cctv equipment at the shelter in order to help safeguard it.

**600 Llunio Lle yn Llanon – Prosiect Creu Lleoedd Ceredigion**
Nodwyd bod yr ymarfer ymgynghori wedi dod i ben ac y byddai gwybodaeth pellach yn dilyn.

**600 Shaping Place in Llanon - Ceredigion Placemaking Project**
It was noted that the consultation exercise had ended and that further information would soon be received.

**601 Datblygiad y Cyrtiau Tenis**
**PENDERFYNWYD** pwyso am ateb gan Adran Stadau Ceredigion.

**601 Tennis Courts Development**
It was **RESOLVED** to press for a response from the Ceredigion Estates Department.

**602 Adroddiad y Cynghorydd Sir Keith Henson**
Adroddodd y Cynghorydd Henson fel a ganlyn:

- roedd camau gorfodaeth yn parhau ynghylch datblygiad anawdurdodedig yn ardal Nebo
- roedd y digwyddiad Gŵyl Dewi wedi bod yn lwyddiant a diolchwyd i bawb a gyfrannodd.
- cafwyd trafodaeth ynghylch archwilio'r posibilrwydd o ddathlu Santes Non, mam Dewi Sant, ar y cyd gyda chymunedau eraill sydd â chysylltiad a hi, yng Ngheredigion ac o bosib yn Llydaw; a chytunwyd sefydlu gweithgor i ystyried y mater
- roedd digwyddiad y Fan a gynhaliwyd yn ystod hanner tymor wedi bod yn lwyddiant.

**602 Report of County Councillor Keith Henson**
Councillor Henson reported as follows:

- enforcement action was being taken in respect of unauthorised development at Nebo
- the St David's event had been a success and thanks were extended to all who had contributed
- a discussion followed with regard to the possibility of celebrating Saint Non, the mother of St David, in association with other communities with a connection with her, in Ceredigion and possibly Britanny; and it was agreed to establish a working group to pursue the matter
- the Fan event held during the half term holiday had again been successful.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:40pm

The meeting concluded at 8:40pm